Ministry of Justice

# Y Cynllun Cyfryngu i Dystion

## Adroddiad Blynyddol 2023

# Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Cynllun Cyfryngwyr i Dystion: Adroddiad Blynyddol 2023

(Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2023)

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy wneud cais i registered.interme@Justice.gov.uk

# Rhagair gan yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, Laura Farris AS



Eleni, mae ugain mlynedd wedi mynd heibio ers i'r Cynllun Cyfryngwyr i Dystion (WIS) gael ei dreialu am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr. Ers i'r Cynllun gael ei sefydlu a'i gyflwyno'n genedlaethol yn 2008, mae wedi trawsnewid y ffordd y mae tystion sy'n agored i niwed yn cael eu trin ac wedi creu gwasanaeth amhrisiadwy a sefydlwyd gan ei garfan hynod fedrus ac arbenigol o Gyfryngwyr Cofrestredig (RI).

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiolchgar iawn i gyfryngwyr cofrestredig WIS, ac mae eu hymdrechion wedi galluogi mwy o ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed nag erioed o'r blaen i roi eu tystiolaeth orau yn 2023.

Mae'r Cynllun yn cael adborth hynod gadarnhaol, sy'n glod i arbenigedd a phroffesiynoldeb cyfryngwyr cofrestredig ledled Cymru a Lloegr. Mae hefyd yn dystiolaeth o'r gwerth y mae ymarferwyr eraill y system gyfiawnder yn ei roi ar y cymorth a roddir gan gyfryngwyr cofrestredig i'r heddlu a'r llysoedd mewn achosion cymhleth.

Yn 2023, roedd WIS wedi darparu cyfryngwyr at gyfer 8,756 o geisiadau gan yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Wrth i'r system gyfiawnder ddod i ddeall mwy am fregusrwydd, mae'r galw am gymorth cyfryngu wedi cynyddu, gyda chynnydd o 14% o un flwyddyn i'r llall. Wrth edrych ar 2024, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ateb y galw cynyddol drwy ddefnyddio ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol a gwneud yn siŵr bod ein rhaglen hyfforddi ragorol yn dod â mwy o gyfryngwyr cofrestredig ar gofrestr WIS. Bydd recriwtio cyfryngwyr cofrestredig yn barhaus yn sicrhau effeithiolrwydd a gwytnwch y Cynllun i ddarparu cymorth i bobl sy'n agored i niwed.

Yn dilyn ein hadolygiad manwl o'r ddarpariaeth cyfryngwyr yn ystod 2023, rydym wedi dechrau rhoi argymhellion ar waith i wneud gwelliannau i'r Cynllun.

Hoffai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ddiolch i'r cyfryngwyr cofrestredig, ochr yn ochr ag ymarferwyr eraill sy'n gweithio'n galed yn y system gyfiawnder, y mae eu hymroddiad yn sicrhau llwyddiant y gwasanaeth pwysig hwn, gan alluogi dioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed roi tystiolaeth a chael mynediad at gyfiawnder.

Laura Farris

**Laura Farris AS**
**Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder**

# Cynnwys

**Termau a byrfoddau** **5**

**Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr i Dystion yn 2023** **6**

Cefndir 6

Crynodeb o 2023 6

Ffynonellau data 7

**2023: Y flwyddyn mewn niferoedd** **8**

**Rhan Un: Trosolwg o'r Cynllun Cyfryngwyr i Dystion** **9**

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Tîm Polisi Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed) 9

Y Tîm Cyfryngwyr i Dystion 9

Bwrdd Llywodraethu a Safonau'r Cynllun Cyfryngwyr i Dystion 9

**Rhan Dau: Dadansoddiad perfformiad 2023** **14**

Methodoleg 14

Crynodeb 14

Ceisiadau wedi'u canslo 15

Ceisiadau heb eu bodloni 15

**Cyfanswm y ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig** **17**

**Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tystion** **19**

**Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plant/oedolion)** **24**

**Ceisiadau yn ôl math o dyst** **26**

**Ceisiadau gan y defnyddiwr** **29**

**Adborth gan ddefnyddwyr** **31**

**Ffigurau Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol** **33**

**Rhan tri: datblygiadau allweddol yn 2023** **35**

Parhau i recriwtio cyfryngwyr cofrestredig 35

Rhaglen hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig wedi'i hadnewyddu 36

Archwiliadau DBS wedi'u huwchraddio 36

Diwygio llywodraethu a sicrhau ansawdd 36

Diweddariad i ganllawiau gweithdrefnol i gyfryngwyr cofrestredig 37

Cynhadledd flynyddol WIS 37

Cylchlythyr WIS 38

**Rhan pedwar: cyllid y cynllun cyfryngwyr i dystion 39**

Cyllideb weinyddol 39

Adolygiad blynyddol o gyfraddau tâl 39

**Rhan pump: edrych tua'r dyfodol 40**

Cynyddu gallu WIS 40

Adolygu'r polisi – y camau nesaf 40

# Termau a byrfoddau

| | |
|---|---|
| ABE | Cyflawni'r Dystiolaeth Orau |
| Adran 28 | Mae Adran 28 (a.28) Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn caniatáu i dystion cymwys recordio eu croesholiad neu eu hail-holiad ymlaen llaw cyn y treial. |
| ARI | Cyfryngwr Cofrestredig Achrededig |
| Defnyddiwr | Y parti sy'n gofyn am wasanaethau Cyfryngwr Cofrestredig, fel arfer yr heddlu neu GEG |
| DPP | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| GEG | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| GSB | Bwrdd Llywodraethu a Safonau |
| MoJ | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| NCA | Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol |
| NPCC | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu |
| NQRI | Cyfryngwr Cofrestredig sydd Newydd Gymhwyso |
| RfS | Cais am Wasanaeth |
| RI | Cyfryngwr Cofrestredig |
| RIRT | Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig |
| SLT | Therapydd Iaith a Lleferydd |
| WIS | Cynllun Cyfryngwyr i Dystion |
| WIT | Tîm Cyfryngwyr Tystion |
| YJCEA | Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 |

# Cyflwyniad: Y Cynllun Cyfryngwyr i Dystion yn 2023

## Cefndir

Treialwyd y Cynllun Cyfryngwyr i Dystion am y tro cyntaf yng Nghymru a Lloegr yn 2004 i weithredu’r mesur arbennig ar gyfer cyfryngwyr yn Neddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 (YJCEA). Cafodd y gwasanaeth ei gyflwyno’n genedlaethol yn 2008 a sefydlodd gofrestr o gyfryngwyr a gafodd eu recriwtio a’u hyfforddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).

Mae’r cyfryngwyr sydd wedi’u hyfforddi o dan y WIS yn cael eu galw’n Gyfryngwyr Cofrestredig (RI). Mae cyfryngwyr cofrestredig yn arbenigwyr cyfathrebu diduedd hunangyflogedig, a’u rôl yw hwyluso cyfathrebu dwyffordd cyflawn, cydlynol a chywir rhwng gweithwyr proffesiynol y system gyfiawnder a phobl sy’n agored i niwed sydd ag anghenion cyfathrebu. Nod cyfryngwyr yw gwella ansawdd y dystiolaeth a hwyluso dealltwriaeth a chyfranogiad y person sy’n agored i niwed yng ngweithdrefnau’r heddlu ac achosion troseddol. Mae eu cymorth yn aml yn golygu bod person sy’n agored i niwed, na fyddai fel arall yn gallu rhoi tystiolaeth, yn gallu gwneud hynny.

Mae Adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 yn nodi bod tyst mewn achos troseddol yn gymwys i gael cymorth gan gyfryngwr os:

- ydynt o dan 18 oed ar adeg y gwrandawiad; neu
- mae’r llys o’r farn bod ansawdd eu tystiolaeth yn debygol o fod ddim cystal oherwydd:
    - anhwylder meddwl (o fewn ystyr Deddf Iechyd Meddwl 1983[1]); neu
    - nam sylweddol ar weithrediad cymdeithasol a deallusrwydd; neu
    - anabledd corfforol neu anhwylder corfforol.

Mae’r Adroddiad Blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o lywodraethu, gweithrediad a pherfformiad WIS rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023.

## Crynodeb o 2023

Yn 2023, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cynnal gwasanaeth WIS o ansawdd uchel ar gyfer pobl sy’n agored i niwed yn wyneb y galw uchaf am gymorth cyfryngwyr cofrestredig hyd yma.

Yn 2023, parhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i recriwtio a hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig i ymuno â’r gofrestr WIS i sicrhau bod y cyflenwad yn bodloni’r galw cynyddol, yn ogystal â chwblhau’r adolygiad polisi o wasanaethau cyfryngu a chryfhau trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd y Cynllun. Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi cymryd amser i adolygu polisïau WIS yr oedd angen eu diwygio, gan dderbyn adborth gan

[1]Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn diffinio ‘anhwylder meddwl’ fel ‘unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl’.

y gymuned cyfryngwyr ehangach, i sicrhau bod y polisïau’n parhau i reoleiddio’r Cynllun yn effeithiol, gan sicrhau ansawdd gwasanaeth i bobl sy’n agored i niwed.

Cafodd WIS gyfanswm o 9,240 o geisiadau am gymorth cyfryngwyr cofrestredig yn 2023, sef y nifer uchaf o geisiadau a gafwyd am y bumed flwyddyn galendr yn olynol. Mae’r ffigur hwn yn gynnydd o 666% yn nifer y ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig ers 2010, ac yn dwf parhaus o’i gymharu â 2022. Roedd cyfran y ceisiadau am gymorth cyfryngwyr cofrestredig, a gyfatebwyd yn llwyddiannus, wedi gostwng ychydig, 0.7% ers 2022, sef 94.8% o’r holl geisiadau am wasanaeth a gafwyd. Credir bod hyn oherwydd cynnydd yn nifer y ceisiadau cymhleth, gan gynnwys pobl â gwendidau lluosog.

Roedd yr adborth gan ddefnyddwyr (h.y. yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron) yn gadarnhaol dros ben, gyda 99.8% o’r ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai ‘rhagorol’, ‘mwy na boddhaol’ neu ‘boddhaol’.

Mae parhau â recriwtio cenedlaethol yn parhau i fod yn flaenoriaeth ac mae ymgyrchoedd recriwtio wedi’u hariannu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ystod y flwyddyn wedi ychwanegu 19 o gyfryngwyr cofrestredig newydd at Gofrestr WIS. Yn 2023, comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd y gwaith o ddatblygu rhaglen hyfforddi newydd ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig, gan gynhyrchu fformat hyfforddi trafodol wedi’i adnewyddu ar gyfer gwell darpariaeth ar-lein. Bydd gwaith i ddatblygu capasiti’r Cynllun yn parhau drwy gydol 2024 gyda phedair rhaglen hyfforddi wedi’u cynllunio i gyfateb i’r cynnydd yn y galw am wasanaethau.

Mewn perthynas â chymuned WIS, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Gynhadledd Flynyddol WIS fel digwyddiad rhithiol ddechrau 2023, a oedd yn rhoi cyfleoedd DPP a rhwydweithio i gyfryngwyr cofrestredig. Er mwyn cryfhau trefn lywodraethu’r Cynllun, unodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y byrddau llywodraethu WIS presennol i ffurfio’r Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB), sy’n uno arbenigedd rhanddeiliaid o’r heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, yr Adran Gyfiawnder ar gyfer Gogledd Iwerddon, NCA, Cymdeithas y Gyfraith, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi (GLITEF), a’r cyfryngwyr cofrestredig eu hunain. Mae’r GSB yn symleiddio’r broses o wneud penderfyniadau a chyfeiriad strategol drwy uno’r Bwrdd Sicrhau Ansawdd blaenorol a’r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr. Ar ben hynny, adolygodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder Bolisi Adborth a Chwynion WIS, i roi mwy o ffocws ar ddatrys yn anffurfiol lle bo’n bosibl, er mwyn annog myfyrio a chyfleoedd dysgu ar gyfer y gymuned o gyfryngwyr cofrestredig.

Yn 2024, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn rhagweld twf pellach yn y galw am ddarpariaeth cyfryngwyr cofrestredig. Mae cyfateb y galw drwy recriwtio a hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig yn barhaus yn dal yn flaenoriaeth, gyda’r Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn cydweithio â GLITEF i ddeall yn well beth sy’n sbarduno’r galw a phrofiadau defnyddwyr sy’n agored i niwed. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd yn parhau i gydweithio ag arbenigwyr maes i ddiweddaru polisi lle bo angen.

## Ffynonellau data

Daw’r holl ystadegau yn yr adroddiad hwn, oni nodir yn benodol fel arall, gan WIT a Thîm Polisi Defnyddwyr sy’n Agored i Niwed y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# 2023: Y flwyddyn mewn rhifau

**9,240**
Total requests for service

**8,756**
Matched requests for RIs

**99.8%**
Positive end-user feedback

**94.8%**
Of requests successfully matched

**19**
New RIs recruited

**43**
Police force areas served

# Rhan Un: Trosolwg o'r Cynllun Cyfryngwyr i Dystion

## Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Tîm Polisi Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed)

Tîm Polisi Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n bennaf gyfrifol am y WIS. Mae hyn yn cynnwys materion strategol a pholisi, yn ogystal â chyllido a goruchwylio ei weinyddiaeth, ac mae'r olaf yn cael ei ddirprwyo i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA). Darperir llywodraethiant drwy'r Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB).

Mae'r Polisi Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed yn rhan o'r Uned Polisi Bregusrwydd a Chyfraith Trosedd, sy'n rhan o Gyfarwyddiaeth Dioddefwyr, Bregusrwydd a Chyfraith Trosedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Y Tîm Cyfryngwyr Tystion

Ers 2013, mae Tîm Cyfryngwyr Tystion (WIT) NCA wedi cyflawni gweithrediadau WIS, gan gynnwys defnyddio Cronfa Ddata'r Gwasanaeth Cyfateb, rheoli'r gofrestr cyfryngwyr cofrestredig a recriwtio a chofrestru cyfryngwyr cofrestredig.

Mae'r WIT yn cael ei arwain gan y Cynghorydd Tystion sy'n Agored i Niwed Cenedlaethol, sy'n ymwneud yn rheolaidd ag ymchwiliadau troseddol mawr i helpu i ddatblygu strategaethau rheoli tystion a chyfweliadau mewn achosion sy'n cynnwys tystion sy'n arbennig o agored i niwed.

Elfen weithredol allweddol WIS yw'r gwasanaeth cyfateb. Dyma'r mecanwaith y mae'r WIT yn ei ddefnyddio i gyfateb cyfryngwyr cofrestredig i ofynion tystion ar gais y sawl sy'n gwneud cais am wasanaeth (heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, neu gyfreithiwr). Drwy'r gwasanaeth cyfateb, mae'r WIT yn casglu data sy'n ymwneud â defnyddio cyfryngwyr cofrestredig. Mae hyn yn cynnwys nifer y ceisiadau ym mhob ardal heddlu ranbarthol a'r rheswm/rhesymau dros y cais (fel y math o fregusrwydd ac oedran y tyst). Mae'r data hwn yn cael ei gofnodi ar gronfa ddata'r gwasanaeth cyfateb ac mae'n caniatáu i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fonitro newidiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn y galw am gyfryngwyr cofrestredig.

## Bwrdd Llywodraethu a Safonau Cynllun Cyfryngwyr i Dystion

Ym mis Medi 2023, cytunodd y Bwrdd Sicrhau Ansawdd (QAB) a'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr (IRB) uno i greu un Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB) i symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau a gwneud y defnydd gorau o arbenigedd aelodau.

Mae'r GSB yn goruchwylio perfformiad a chyfeiriad strategol WIS a'i nod yw sicrhau bod gwasanaethau cyfryngu proffesiynol o ansawdd uchel ar gael i ddioddefwyr a thystion sydd ag anghenion cyfathrebu. Mae'n gyfrifol am lywodraethu a rheoli polisi'r Cynllun, yn ogystal â sicrhau ansawdd, rheoleiddio a monitro safonau proffesiynol Cyfryngwyr Cofrestredig sy'n gweithio yn WIS.

Mae aelodau'n gyfrifol am gynrychioli eu sefydliadau ar y Bwrdd a chynrychioli'r Bwrdd yn eu sefydliadau i sicrhau bod y Cynllun yn parhau i ddiwallu anghenion y rheini yn y system cyfiawnder troseddol.

Amcanion GSB WIS yw:

- Cynnal atebolrwydd am berfformiad WIS.
- Goruchwylio'r gwaith o gyflenwi a recriwtio Cyfryngwyr Cofrestredig
- Cytuno ar y safonau ar gyfer rheoli ansawdd recriwtio, hyfforddi, cofrestru a datblygiad proffesiynol parhaus cyfryngwyr cofrestredig, ac arwain ar hynny.
- Cynnal y gofrestr cyfryngwyr cofrestredig a sicrhau ei bod yn addas i'r diben.
- Sicrhau bod cyfryngwyr cofrestredig yn cael eu cefnogi i weithredu'n unol â'r Cod Ymarfer a'r Cod Moeseg.
- Sicrhau bod adborth a chwynion yn cael eu hadolygu yn unol â pholisi adborth a chwynion WIS (Atodiad D).
- Monitro a chefnogi datblygiad pob agwedd ar rôl broffesiynol cyfryngwyr cofrestredig.

Mae'r GSB yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cynnwys un ar bymtheg o aelodau. Mae pump o'r rhain yn aelodau annibynnol sy'n meddu ar arbenigedd proffesiynol mewn llywodraethu a sicrhau ansawdd. Mae'r aelodau annibynnol hefyd yn arwain ar feysydd sicrhau ansawdd penodol, fel DPP, recriwtio, neu adborth a chwynion. Mae saith aelod ychwanegol yn gynrychiolwyr swyddogol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, NCA, Gwasanaeth Erlyn y Goron a Choleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd (RCSLT).

| GSB: cynrychiolwyr swyddogol | |
|---|---|
| **Aelod** | **Rôl** |
| Rachel Hersey / Rabiah Narey | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Cyd-gadeirydd GSB |
| Tom Henwood | Y Weinyddiaeth Gyfiawnder |
| Hannah Kappler | Gwasanaeth Erlyn y Goron |
| Sonya Baylis / Laura Hynes | Yr Asiantaeth Droseddu Genedlaethol |
| Genna Telfer / Nicola Furlong | Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC) |
| Clare Moser | Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith |
| Tony Pointer / Nikki Sorockyj | GLITEF |
| Rhiannon Mark / Amy McKay | Cynrychiolydd Gwasanaeth Tystion Cyngor ar Bopeth |
| Janet Arkinstall | Cymdeithas y Gyfraith |
| Sandra Stephenson | Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig |
| Jodie Kelly | Adran Gyfiawnder Gogledd Iwerddon |

**GSB: aelodau annibynnol (2023)**

| Aelod | Proffil |
|---|---|
| **Yr Athro Karen Bryan**<br>Cyd-gadeirydd GSB | **Yr Athro Karen Bryan** yw Is-Ganghellor Prifysgol Efrog Sant Ioan. Cyn hynny, roedd yn Ddirprwy Is-Ganghellor (Academaidd) ym Mhrifysgol Greenwich, Dirprwy Is-Ganghellor dros Ymgysylltu Rhanbarthol a Deon y Gyfadran Iechyd a Lles ym Mhrifysgol Sheffield Hallam ac roedd ganddi swyddi academaidd ym Mhrifysgol Surrey a Choleg Prifysgol Llundain. Yn ogystal, bu gan yr Athro Bryan swyddi gyda'r GIG tan 2013.<br><br>Cymhwysodd yr Athro Bryan fel therapydd iaith a lleferydd o Brifysgol Newcastle upon Tyne, gan ennill ei PhD yno hefyd. Mae ei diddordebau ymchwil yn ymwneud ag anawsterau cyfathrebu ymhlith troseddwyr ifanc a phoblogaethau fforensig, yn ogystal ag effaith anawsterau cyfathrebu ar fynediad at ofal iechyd.<br><br>Mae'r Athro Bryan yn Athro Gwadd yn yr Adran Niwroseicoleg ym Mhrifysgol Warsaw, ac yn Gymrawd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd. Roedd hi hefyd yn aelod o'r Cyngor Proffesiynau Iechyd. Dyfarnwyd OBE iddi am ei gwasanaethau i addysg uwch yn 2018. |
| **Clare Hickey**<br>Arweinydd Mentora, Recriwtio a Hyfforddi | Mae **Clare Hickey** yn Ymgynghorydd Adnoddau Dynol llawrydd, sy'n cynghori busnesau ar strategaeth pobl, recriwtio, hyfforddi a datblygu, ac yn darparu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar atebion.<br><br>Mae Clare yn cyfuno gwaith ymgynghori ag eistedd fel Ynad yn y Llysoedd Oedolion a'r Llysoedd Ieuenctid yn Ne Essex. Mae hi hefyd yn rhan o'r tîm 'Ynadon yn y Gymuned', yn ymweld ag ysgolion i gyflwyno gweithdai ar y farnwriaeth ac i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â throseddau cyllyll, bwlio seiber a Llinellau Cyffuriau. |
| **Karen Melvin**<br>Ymgynghorydd Cyffredinol | Mae **Karen Melvin** yn Therapydd Iaith a Lleferydd sydd wedi arbenigo mewn gweithio gydag Oedolion ag Anableddau Deallusol a/neu Awtistiaeth mewn amrywiol leoliadau Cymunedol, Cleifion Mewnol a fforensig y GIG ers 2005. Mae'n aelod o Grŵp Arweinwyr Clinigol a Gwasanaeth Rhanbarthol ar gyfer y boblogaeth hon yng Ngogledd Iwerddon ac mae hefyd yn Diwtor Makaton Rhanbarthol. Mae Karen yn Gyfryngwr profiadol sy'n gweithio drwy Gynllun Cyfryngwyr Cofrestredig Gogledd Iwerddon gyda dioddefwyr/tystion a diffynyddion/unigolion dan amheuaeth o bob oed sy'n dangos gwahaniaethau cyfathrebu.<br><br>Mae Karen hefyd yn Diwtor ac yn ddatblygwr cynnwys ar gyfer sawl cwrs proffesiynol ar y Rhaglen Hyfforddiant Awtistiaeth Genedlaethol ar y cyd â |

| | |
|---|---|
| | GIG Lloegr a Chanolfan Anna Freud, Llundain. Mae'r rhain yn cynnwys Iechyd a Chyfiawnder, CAMHS, Iechyd Meddwl Cymunedol a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cleifion Mewnol. Mae hi wedi bod yn ddarlithydd gwadd ym Mhrifysgol Ulster ar gyfer myfyrwyr Therapi Iaith a Lleferydd Israddedig.<br><br>Mae gan Karen brofiad personol o niwrowahaniaeth fel chwaer i oedolyn awtistig ag anabledd dysgu ac fel rhiant i blentyn awtistig sydd hefyd ag ADD. Mae hi'n frwd dros sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas yn cael mynediad at y system farnwrol ar sail deg a chyfartal gyda chefnogaeth garedig a sensitif. Mae ei diddordebau penodol ym meysydd mudandod sefyllfaol, unigolion nad ydynt yn siarad ac AAC (Cyfathrebu Amgen a Chynyddol). |
| **Carolyn McConnell**<br>Arweinydd Adborth a Chwynion | Mae **Carolyn McConnell** wedi gweithio ym maes gofal cymdeithasol ers dros 25 mlynedd, yn fwyaf diweddar fel Prif Swyddog Ansawdd a Risg ar gyfer elusen genedlaethol. Agwedd bwysig ar y rôl hon oedd gosod a monitro safonau gofal ar draws mwy na 500 o wasanaethau. Roedd y rôl hefyd yn cynnwys rheoli risg gorfforaethol, archwilio mewnol, ac adborth ar ddarpariaeth gwasanaeth.<br><br>Yng nghanol ei gyrfa ym maes gofal cymdeithasol, bu Carolyn hefyd yn gweithio i Awdurdod Heddlu Glannau Mersi cyn dychwelyd i ofal cymdeithasol. Yn ei rôl fel Dirprwy Brif Weithredwr, Carolyn oedd yn gyfrifol am fonitro perfformiad plismona, ymgysylltu â'r gymuned a safonau proffesiynol. Mae'r profiad hwn yn rhoi persbectif unigryw i Carolyn ar anghenion pobl sy'n agored i niwed a'r amgylchedd plismona.<br><br>Mae Carolyn hefyd wedi cael ei phenodi'n ddiweddar yn Brif Weithredwr elusen leol ar gyfer pobl ag anabledd dysgu ac mae ei hangerdd yn sicrhau bod gan bobl sy'n agored i niwed lais a'u bod yn cael eu cefnogi i gymryd rhan ym mhob rhan o'r gymuned.<br><br>Fel arweinydd ar gyfer adborth negyddol, mae Carolyn eisiau sicrhau y bydd yr agwedd hon ar waith y Bwrdd yn parhau i helpu i gynnal safonau uchel y Cynllun Cyfryngwyr Cofrestredig. |
| **Benjamin Roe**<br>Arweinydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus a Chofrestr | **Ben Roe** yw Prif Gyfreithiwr Gwybodaeth grŵp anghydfodau a chydymffurfiaeth byd-eang cwmni cyfreithiol rhyngwladol blaenllaw. Mae'n gyfrifol am anghenion gwybodaeth, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant oddeutu 1400 o gyfreithwyr ymgyfreitha, cyflafareddu a chydymffurfiaeth ar draws 77 swyddfa.<br><br>Mae Ben yn gyfreithiwr ymgyfreitha profiadol, a chyn ei rôl bresennol bu'n gweithio mewn practis preifat yn Llundain. Mae wedi rheoli nifer o achosion |

| | |
|---|---|
| Cyfryngwyr Cofrestredig | proffil uchel, yn aml yn ymwneud â materion trawsffiniol. Mae ganddo brofiad helaeth o baratoi tystion ar gyfer treial a chefnogi unigolion drwy broses sy'n aml yn anghyfarwydd.<br><br>Mae gan Ben Hawliau i Ymddangos mewn Uwch Lys. ac mae'n gyfryngwr sydd wedi'i achredu gan CEDR. Mae'n un o Swyddogion Pwyllgor Ymgyfreitha Cymdeithas Ryngwladol y Bar. Mae Ben hefyd yn aelod o Gymdeithas Cyfreithwyr Cymorth Ymgyfreitha Proffesiynol ac yn gyn Aelod Pwyllgor o Gymdeithas Ymgyfreitha Cyfreithwyr Llundain. |

## Tîm Cyfeirio Cyfryngwyr Cofrestredig (RIRT)

Mae'r RIRT yn cynnwys cynrychiolwyr a benodir gan bob un o grwpiau rhanbarthol cyfryngwyr cofrestredig, a'i nod yw cynrychioli buddiannau cyfryngwyr cofrestredig i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Rôl RIRT yw:

- Darparu fforwm i'r gymuned o gyfryngwyr cofrestredig godi materion perthnasol ynghylch WIS i grŵp hunan-ddewisedig o gymheiriaid i'w trafod mewn amgylchedd ffurfiol gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Sicrhau cynrychiolaeth o'r gymuned cyfryngwyr cofrestredig drwy ei haelodaeth, gan adlewyrchu, cyn belled ag y bo modd, trawstoriad o'r gymuned honno gan wahanol broffesiynau a galwedigaethau, gwahanol batrymau gweithio a chefndiroedd. Cynrychioli holl ardaloedd grwpiau cefnogi rhanbarthol.
- Sicrhau bod y berthynas rhwng y gymuned cyfryngwyr cofrestredig a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael ei chynrychioli a'i rheoli'n effeithiol.

Mae'r RIRT yn cyfarfod bob chwarter gyda chynrychiolwyr o Bolisi Defnyddwyr sy'n Agored i Niwed y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

# Rhan Dau: Dadansoddiad perfformiad 2023

## Methodoleg

Mae'r NCA yn casglu data sy'n ymwneud â cheisiadau am wasanaeth (RfS) ar gyfer cyfryngwyr cofrestredig, sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o'r gwasanaethau WIS blynyddol a ddarperir. Dyma'r brif ffynhonnell ddata ar gyfer dadansoddi perfformiad WIS.

Mae'r data'n cynnwys:

- Cyfanswm nifer y ceisiadau am Gyfryngwr Cofrestredig
- Ceisiadau yn ôl bregusrwydd y tystion
- Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plentyn neu oedolyn)
- Ceisiadau yn ôl math o dyst
- Ceisiadau yn ôl y defnyddiwr (yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron)
- Adborth gan ddefnyddwyr ar gyfer 2023
- Nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol ac anweithredol (ffigurau misol)

Mae'r data'n cael ei grynhoi rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Rhagfyr 2023. Mae hyn yn cynnwys newidiadau yn nifer y ceisiadau a'r newidiadau sy'n ymwneud â dosbarthu ceisiadau ar draws bregusrwydd, oedran tystion, mathau o dystion a defnyddwyr, yn ogystal â nifer y ceisiadau sydd wedi'u cyfateb, heb eu cyfateb a rhai sydd wedi eu canslo. Mae'r adran hon hefyd yn ymdrin ag argaeledd cyfryngwyr cofrestredig ac adborth gan ddefnyddwyr, a ddiffinnir gan bedwar maen prawf asesu o dros 1,500 o achosion sy'n ymwneud â dioddefwyr a thystion yr erlyniad lle cafwyd adborth.

Er mwyn archwilio tueddiadau ehangach o fewn WIS a darparu cymariaethau i ddehongli data 2023, bydd yr adran hon yn cyfeirio at ddata gwasanaeth cyfatebol o 2022 (1 Ionawr 2022 i 31 Rhagfyr 2022). Mae data o'r un cyfnodau blynyddol ar gyfer 2011-2022 hefyd wedi cael eu cynnwys i ddarparu cyd-destun tymor hir o ran y galw am wasanaethau WIS. Mae pob cyfeiriad at gynnydd a gostyngiad yn cael ei fesur yn nhermau newid canrannol.[2]

## Crynodeb

Yn 2023, derbyniodd WIS 9,240 o geisiadau am wasanaeth cyfryngwyr cofrestredig, sy'n cynrychioli cynnydd o 14% ar y flwyddyn flaenorol a'r nifer uchaf o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig mewn blwyddyn galendr ers cyflwyno WIS yn genedlaethol yn 2008.

[2] Yn hytrach na newid mewn pwynt canran.

Mae'r cynnydd cyffredinol mewn gwasanaeth yn cyfateb i gynnydd yn nifer y ceisiadau am chwech o'r saith categori bregusrwydd a gofnodwyd; dangosir hyn ar **ffigur 4**. Cofnodwyd gostyngiad bach (1.3%) mewn ceisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd sy'n cyd-ddigwydd (y bregusrwydd a nodwyd amlaf yn gyffredinol). Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn ceisiadau gan oedolion ag anhwylder meddwl (28.7%) a phlant ag anableddau corfforol (28.3%).

Llwyddwyd i gyfateb 94.8% o geisiadau. Nid yw'r duedd hon yr un fath yn gyffredinol, gyda'r cyfraddau cyfateb llwyddiannus yn amrywio mewn ceisiadau ar gyfer oedolion a phlant. Gwelir yr amrywiad blynyddol mwyaf arwyddocaol ar gyfer anhwylder meddwl oedolion, gyda gostyngiad o 2.8% yn y gyfradd gyfateb. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae'r ystadegau'n dangos bod WIS yn cyfateb ceisiadau i gyfryngwyr cofrestredig gyda'r sgiliau priodol yn y mwyafrif helaeth o achosion.

Mae heddluoedd yn parhau i gyfrif am y mwyafrif gyda 79% o geisiadau'n deillio o'r cyfnod ymchwilio; fel y dangosir yn **ffigur 10** (*gweler tudalen 26*). Mae ceisiadau gan yr heddlu wedi cynyddu 14.6% yn flynyddol i 7,339 o geisiadau. Roedd ceisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi cynyddu'n sylweddol, 10.3% i 1,898.

Roedd adborth defnyddwyr am gyfryngwyr cofrestredig drwy gydol 2023 yn dal yn gadarnhaol iawn, gyda 99.8% o'r holl ymatebion yn cael eu cofnodi fel rhai 'rhagorol', 'mwy na boddhaol' neu 'boddhaol'.

## Ceisiadau wedi'u canslo

Gellir canslo cais am gyfryngwyr cofrestredig mewn amgylchiadau fel ple euog cynnar, tynnu cwyn gan y dioddefwr yn ôl, neu os nad yw'r tyst yn gallu neu'n dymuno bwrw ymlaen am unrhyw reswm (e.e. rhesymau meddygol). Yn 2023, cafodd 2.2% o'r RfS eu canslo.

## Ceisiadau heb eu cyfateb

Mae ceisiadau heb eu cyfateb yn cyfeirio at achosion lle na ellid aseinio cyfryngwr cofrestredig i achos yn dilyn cais am gymorth cyfryngwr cofrestredig.

Os bydd y llys yn cytuno i ohirio, bydd y cais yn dal i gael ei gofnodi fel un heb ei gyfateb a bydd cais newydd (yn adlewyrchu dyddiad newydd y treial) yn cael ei gynhyrchu. Felly, nid yw ceisiadau heb eu cyfateb o reidrwydd yn dangos nad oedd yr unigolyn yr oedd angen cymorth arno wedi derbyn cyfryngwr ar gyfer yr achos hwnnw.

Gall cais am gyfryngwyr cofrestredig beidio cael ei gyfateb mewn amgylchiadau lle nad yw'r WIT yn gallu darparu cyfryngwr cofrestredig o fewn yr amserlen a bennir gan y defnyddiwr, os nad oes unrhyw gyfryngwyr cofrestredig yn gallu derbyn achos, neu os nad oes cyfryngwr cofrestredig ar gael ar ddyddiad(au) treial. Mewn amgylchiadau eithriadol o brin, efallai na fydd y WIT yn gallu darparu cyfryngwr cofrestredig â'r sgiliau angenrheidiol i ymgymryd ag achos cymhleth.

Os nad yw'n bosibl cyfateb cais gan yr heddlu, bydd y Cynghorydd Cenedlaethol Tystion sy'n Agored i Niwed yn darparu cyngor arbenigol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy gyngor dros y ffôn neu drwy e-bost i ymchwilwyr yr heddlu sy'n ystyried yr ymchwil seicolegol ddiweddaraf, a bydd yn cynnwys defnyddio technegau ac dulliau holi priodol i ddiwallu

anghenion cyfathrebu'r unigolyn sy'n agored i niwed, wedi'u haddasu'n briodol mewn ffordd sy'n debygol o fod yn dderbyniol i'r system cyfiawnder troseddol.


Os nad yw'n bosibl cyfateb cais yn ystod y cam llys, ni fydd y Cynghorydd Cenedlaethol Tystion sy'n Agored i Niwed yn gallu darparu cyngor pwrpasol. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd datganiad cyngor safonol yr NCA yn cael ei ddarparu.

Yn 2023, roedd 2.2% o geisiadau am wasanaeth heb eu cyfateb.

# Cyfanswm y ceisiadau am gyfryngwyr cofrestredig

Gwnaed cyfanswm o 9,240 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig drwy WIS yn 2023, sef cyfartaledd o 770 o geisiadau bob mis. Mae hyn yn gynnydd o 14% mewn ceisiadau (cynnydd o dros 1,100) ers 2022, ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwnaed 8,125 o geisiadau bob blwyddyn.

Mae hefyd yn cynrychioli cynnydd o 666% ers 2010, pan wnaed 1,206 o geisiadau (**ffigur 1**).





**Ffigur 1**


## Newid cyffredinol: cyfraddau cyfateb llwyddiannus

O blith 9,240 o geisiadau yn 2023, cafodd 94.8% (8,756) eu cyfateb yn llwyddiannus gan WIT, gyda 9% (201) heb eu cyfateb, a 9% (202) yn cael eu canslo.[3] Mae hyn yn cynrychioli tua 4.4% o'r holl geisiadau am wasanaeth cyfryngu ac mae'n ostyngiad o 0.4% yn yr un ffigur yn 2022.

[3]Roedd 0.9% (81) o achosion yn dal yn y broses gyfateb ym mis Ionawr 2024.




**Ffigur 2**




**Ffigur 3**

# Ceisiadau yn ôl pa mor agored i niwed yw'r tystion

Mae saith categori y gellir eu cofnodi ar ffurflenni Cais am Wasanaeth (RfS) Cyfryngwyr Cofrestredig i nodi pa mor agored i niwed yw'r tyst a'i anghenion:[4]

- Plentyn heb Fregusrwydd Cydamserol
- Plentyn ag Anhwylder Meddwl
- Plentyn ag Anabledd Dysgu
- Plentyn ag Anabledd Corfforol
- Oedolyn ag Anhwylder Meddwl
- Oedolyn ag Anabledd Dysgu
- Oedolyn ag Anabledd Corfforol

Mae'n bosib bod gan dyst nifer o wendidau wedi'u nodi ar ffurflen RfS. Mae'r ffigurau cyfun yn yr adran hon yn fwy na'r ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y ceisiadau a nodir uchod.

## Diffiniadau ac enghreifftiau

Nid yw'r enghreifftiau a nodir yn y tabl isod yn gynhwysfawr. Dim ond rhai o'r cyflyrau sy'n gallu effeithio ar allu person i gyfathrebu'n effeithiol yw'r rhain.

Mae'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth cyfryngwr cofrestredig (fel y nodir yn adran 16 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999) wedi'u nodi ar dudalen 6 yr adroddiad hwn.

| Math o fregusrwydd | Diffiniadau/enghreifftiau nad ydynt yn gynhwysfawr |
|---|---|
| **Plentyn heb fregusrwydd cydamserol** | Mae'n cyfeirio'n unig at blant sydd â hawl i gyfryngwyr cofrestredig oherwydd mai eu hunig fregusrwydd yw bod o dan 18 oed. |
| **Anhwylder meddwl** | Unrhyw anhwylder neu anabledd meddwl.[5]<br>Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: orbryder; iselder; anhwylder affeithiol deubegynol; anhwylder gorfodaeth obsesiynol; anhwylder personoliaeth; sgitsoffrenia; dementia (gan gynnwys clefyd Alzheimer). |
| **Anabledd dysgu** | Mae'n effeithio ar y ffordd y mae person yn deall gwybodaeth neu sut y mae'n cyfathrebu. Mae hyn yn golygu eu bod yn ei |

[4] Er mwyn gofyn am gymorth cyfryngwr cofrestredig, mae'r defnyddiwr (yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron fel arfer) yn cyflwyno ffurflen RfS i Dîm Cyfryngwyr Tystion yr NCA. Mae pob cais yn nodi bregusrwydd neu wendidau'r tyst.


[5] Deddf Iechyd Meddwl 1983, Adran 1(2)

| | |
|---|---|
| | chael yn anodd: deall gwybodaeth newydd neu gymhleth; dysgu sgiliau newydd; ymdopi'n annibynnol. [6]<br>Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: ADHD; anhwylder sbectrwm awtistiaeth (gan gynnwys Syndrom Asperger); dysarthria; oedi/anhwylder iaith; mudandod ddethol. |
| **Anabledd corfforol** | Nam corfforol sy'n cael effaith negyddol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.[7]<br>Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: Atal dweud; anhwylder llais (gan gynnwys laryngectomi a thracheotomi); anaf i'r ymennydd neu i'r pen (gan gynnwys strôc); anhwylderau niwrolegol a chynyddol (gan gynnwys clefyd niwronau motor a chlefyd Parkinson); parlys yr ymennydd. |

## Dadansoddiad o'r bregusrwydd neu wendidau a nodwyd yn y ffurflenni cais am wasanaeth

O'r holl wendidau a nodwyd ar ffurflenni RfS RI yn 2023, roedd 64% ar gyfer plant heb fregusrwydd cydamserol, sy'n golygu mai dyma'r bregusrwydd a nodwyd amlaf. Dilynwyd hyn yn agos gan blant ag anabledd dysgu ar 29.5%, ac oedolion ag anabledd dysgu ar 27.5%. Cyfeiriwyd at oedolion ag anhwylder meddwl mewn 20.4% o geisiadau, gyda phlant ag anhwylder meddwl a phlant ac oedolion ag anabledd corfforol yn cynrychioli canrannau llai o geisiadau.

[6] Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 2018 (www.nhs.uk/conditions/learning-disabilities/)
[7] Deddf Cydraddoldeb 2010, Adran 6(1)




**Ffigur 4**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Ers 2021, cofnodwyd cynnydd yng nghyfanswm y cyfeiriadau ar ffurflenni RfS ar gyfer pob un categori bregusrwydd, ac eithrio un (**Tabl 1**).[8]


Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy’n blant, cynyddodd y cyfeiriadau ar gyfer anhwylderau meddwl 14.5%, roedd y rhai ar gyfer anableddau dysgu wedi cynyddu 21.6%, roedd y rhai ar gyfer anableddau corfforol wedi cynyddu 28.6%. Fodd bynnag, am y drydedd flwyddyn yn olynol, gostyngodd nifer y ceisiadau ar gyfer plant heb fregusrwydd cydamserol (gostyngiad o 1.25%).

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy’n oedolion, cynyddodd y cyfeiriadau ar gyfer yr holl fathau o fregusrwydd 28.7%, roedd y rhai ar gyfer anableddau dysgu wedi cynyddu 26%, a roedd y rhai ar gyfer anableddau corfforol wedi cynyddu 16.9%.

[8] Ffigur 4 a Thabl 1, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2021 – 2023*

| Newid ar draws pob cais (Mathau o fregusrwydd) | | | |
|---|---|---|---|
| **Bregusrwydd** | **2022** | **2023** | **Newid ers 2022 (%)** |
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydamserol)** | 2,952 | 2915 | **-1.3** |
| **Plentyn - Anhwylder Meddwl** | 697 | 798 | **+14.5** |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 2,246 | 2,731 | **+21.6** |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 106 | 136 | **+28.3** |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddwl** | 1,467 | 1,888 | **+28.7** |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 2,021 | 2,546 | **+26.0** |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 516 | 603 | **+16.9** |

**Tabl 1**




**Ffigur 5**


## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Cofnodwyd cynnydd yng nghanran y ceisiadau a gyfatebwyd ar draws bron pob math o fregusrwydd plant yn 2023, gyda dim ond un gostyngiad wedi'i nodi ar gyfer plant heb fregusrwydd cydamserol, ond bach iawn yw'r gostyngiad a nodwyd (0.2) – gweler Tabl 2 a **Ffigur 6** am ddisgrifiad.

Ar gyfer dioddefwyr a thystion sy'n oedolion, roedd canran y ceisiadau a gyfatebwyd wedi gostwng ar gyfer gwendidau meddyliol a dysgu ond wedi cynyddu ar gyfer anabledd corfforol – gweler hefyd Tabl 2 a **Ffigur 6**.[9]

| Newid mewn cyfraddau cyfateb llwyddiannus (Mathau o Fregusrwydd) | | | |
|---|---|---|---|
| Bregusrwydd | Wedi cyfateb yn 2022 (%) | Wedi cyfateb yn 2023 (%) | Newid ers 2022 (pt%) |
| **Plentyn (heb fregusrwydd cydamserol)** | 97.9 | 97.7 | **-0.2** |
| **Plentyn - Anhwylder Meddwl** | 95.8 | 96.7 | **+0.9** |
| **Plentyn - Anabledd Dysgu** | 97.1 | 97.2 | **+0.1** |
| **Plentyn - Anabledd Corfforol** | 97.2 | 97.8 | **+0.6** |
| **Oedolyn - Anhwylder Meddwl** | 89.6 | 86.8 | **-2.8** |
| **Oedolyn - Anabledd Dysgu** | 92.7 | 91.2 | **-1.6** |
| **Oedolyn - Anabledd Corfforol** | 89.5 | 92.0 | **+1.5** |

**Tabl 2**




**Ffigur 6**

[9] Tabl 2 a Ffigur 6, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2021 – 2023*


# Ceisiadau yn ôl oedran y tystion (plant/oedolion)

Mae'r NCA yn cofnodi nifer y ceisiadau a wnaed ar ran oedolion a phlant:

- Plant (dan 18 oed)
- Oedolion (dros 18 oed)

## Dadansoddiad o'r ceisiadau (plant/oedolion)

O'r 9,240 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2022, roedd 64% o'r ceisiadau (5,915) ar ran plant. Cafodd y 36% arall (3,325) eu gwneud ar ran oedolion.




**Ffigur 7**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Mae nifer y ceisiadau ar gyfer plant ac oedolion wedi cynyddu 8.9% (486 o geisiadau) a 23% (629 o geisiadau) yn y drefn honno.

| Newid ar draws yr holl geisiadau (yn ôl oedran y tyst) | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2022 | 2023 | Newid (%) |
| **Plentyn** | 5,429 | 5,915 | **+8.9** |
| **Oedolyn** | 2,696 | 3,325 | **+23.3** |

**Tabl 3**

## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Wrth gymharu 2023 â 2022, roedd y cyfraddau cyfateb llwyddiannus wedi cynyddu ar gyfer plant ac wedi gostwng ar gyfer oedolion. Fel sy’n cael ei ddangos yn Nhabl 4, roedd yr amrywiad canrannol yn isel iawn (+0.1% a -0/5% yn y drefn honno).

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (oedran y tyst) | | | |
|---|---|---|---|
| Oedran | 2022 (%) | 2023 (%) | Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (pt%) |
| **Plant** | 97.4 | 97.5 | **+0.1** |
| **Oedolion** | 91.4 | 89.9 | **-0.5** |

**Tabl 4**

# Ceisiadau yn ôl math o dyst


Mae'r NCA yn rhannu data ceisiadau am wasanaeth a gyfatebwyd yn dri math o dyst.

- Dioddefwyr
- Tystion dros yr Erlyniad
- Tyst dros yr Amddiffyniad

## Dadansoddiad o'r ceisiadau

O'r 9,240 o geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2022, roedd 92.2% o'r ceisiadau a gofnodwyd (8,521) yn perthyn i'r categori 'Dioddefwyr', cafodd 7.8% (718) eu gwneud ar gyfer 'tystion dros yr erlyniad', a chafodd 0.1% (1) eu gwneud ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad.

Breakdown of requests (witness type): 2022




**Ffigur 8**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Mae cymharu â 2022 yn dangos cynnydd o 15.9% yn nifer y ceisiadau ar gyfer dioddefwyr. Roedd nifer y ceisiadau ar gyfer tystion dros yr erlyniad wedi gostwng 6.8%, felly hefyd nifer y ceisiadau ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad a, gyda gostyngiad o 2 (67%).

| Newid ar draws pob cais (math o dyst) | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Dyst** | **2022** | **2023** | **Newid (%)** |
| **Dioddefwyr** | 7352 | 8521 | **+15.9** |
| **Tystion dros yr Erlyniad** | 770 | 718 | **-6.8** |
| **Tyst dros yr Amddiffyniad** | 3 | 1 | **-67.0** |


**Tabl 5**

# Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Roedd y gyfradd cyfateb llwyddiannus ar gyfer dioddefwyr a thystion dros yr erlyniad wedi gostwng ychydig ers 2022. Nid oes dadansoddiad data pellach wedi'i ddarparu ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad oherwydd y nifer isel o achosion.

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (math o dyst) | | | |
|---|---|---|---|
| **Math o Dyst** | **2022 (%)** | **2023 (%)** | **Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (pt%)** |
| **Dioddefwyr** | 95.5 | 94.8 | **-0.7** |
| **Tystion dros yr Erlyniad** | 95.2 | 94.4 | **-0.8** |
| **Tyst dros yr Amddiffyniad** | 100 | 100 | **dim** |

**Tabl 6**




**Ffigur 9**

# Ceisiadau gan y defnyddiwr


Mae pedwar categori o ddefnyddwyr sydd wedi cyflwyno ceisiadau i'r NCA yn 2023:

- Yr Heddlu
- Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)
- Cyfreithiwr
- Llys

## Dadansoddiad o'r ceisiadau

Mae ceisiadau gan heddluoedd yn parhau i fod yn fwyafrif (79%, 7,339) o'r holl geisiadau am gyfryngwyr cofrestredig yn 2022, gyda cheisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron yn cyfrif am 21% (1,898 o geisiadau).[10] Mae ceisiadau gan gyfreithwyr a'r llysoedd yn cyfateb i geisiadau ar gyfer tystion dros yr amddiffyniad ac mae'r niferoedd yn dal yn eithriadol o fach (<0.1%); nid oes dadansoddiad pellach o'r data wedi'i ddarparu am y rheswm hwn.

Breakdown of requests (end-user): 2023




**Ffigur 10**

## Newid ar draws yr holl geisiadau

Mae nifer y ceisiadau gan heddluoedd wedi cynyddu 14.6%, ac mae ceisiadau gan Wasanaeth Erlyn y Goron wedi cynyddu 10.3%.[11]

[10] Ffigur 10, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2022 – 23*
[11] Tabl 8, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2021 – 2023*

| Newid ar draws yr holl geisiadau | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr** | **2022** | **2023** | **Newid (%)** |
| **Yr Heddlu** | 6,402 | 7,339 | **+14.6** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** | 1,720 | 1,898 | **+10.3** |
| **Cyfreithiwr** | 3 | 1 | **-60.0** |
| **Llys** | 0 | 2 | **Amh.** |


**Tabl 8**

## Cyfraddau cyfateb llwyddiannus

Gostyngodd y gyfradd cyfateb llwyddiannus ar gyfer ceisiadau gan yr heddlu 1.1% ers 2022 , ac roedd y gyfradd llwyddiant ar gyfer ceisiadau Gwasanaeth Erlyn y Goron hefyd wedi gostwng 0.2%.[12]

| Newid mewn cyfraddau llwyddo (defnyddiwr) | | | |
|---|---|---|---|
| **Defnyddiwr** | **2022 (%)** | **2023 (%)** | **Newid yn y Ceisiadau a Gyfatebwyd (%)** |
| **Yr Heddlu** | 96.7 | 95.8 | **-0.8** |
| **Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS)** | 90.8 | 90.6 | **-0.2** |
| **Cyfreithiwr** | 100 | 100 | **dim** |

**Tabl 9**




**Ffigur 11**

[12] Tabl 9, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2021 – 2023*

# Adborth gan ddefnyddwyr

Caiff adborth gan ddefnyddwyr (fel arfer gan yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron) ei asesu gan ddefnyddio graddfa pum haen (rhagorol, mwy na boddhaol, boddhaol, llai na boddhaol, a gwael). Darperir adborth yn erbyn pedwar maen prawf penodol:


- Cydymffurfio â'r drefn droseddol
- Ymddygiad personol / proffesiynoldeb y cyfryngwr cofrestredig
- Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig
- Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr Achos

Mae'r adborth o dan bob maen prawf wedi'i ddadgyfuno rhwng darpariaeth cyfryngwyr cofrestredig ar gyfer dioddefwyr a thystion dros yr erlyniad. Pan fo'r adborth ar gyfer achos penodol yn disgyn o dan 'boddhaol', bydd y GSB yn ymchwilio.

## Trosolwg o'r adborth

Mae adborth ar draws y pedwar maen prawf a'r ddau fath o dyst wedi cael ei nodi fel cyfartaledd er mwyn rhoi cipolwg ar berfformiad cyfryngwyr cofrestredig, a adlewyrchir drwy adborth gan ddefnyddwyr yn 2023.

Yn y 1,658 o achosion lle cafwyd adborth, derbyniodd 99.8% adborth 'boddhaol', 'mwy na boddhaol' neu 'rhagorol'. O'r 0.2% arall, roedd (3) o'r adborth yn 'llai na boddhaol' gyda dim ond 1 darn o adborth yn nodi sgôr 'gwael'.[13]




**Ffigur 12**

[13] Ffigur 12, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2022 – 23*

# Adborth ar draws yr holl feini prawf

Isod, mae'r holl ganlyniadau, sy'n cynnwys mathau o dystion a'r holl feini prawf adborth, wedi cael eu cyflwyno.[14] Mae hyn yn dangos ymhellach y gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan gyfryngwyr cofrestredig ar draws WIS.

| Achosion dioddefwyr | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â'r drefn droseddol** | 92.0 (1,420) | 7.3 (113) | 0.6 (10) | dim | dim | 1,543 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 94.4 (1,462) | 4.8 (75) | 0.6 (9) | 0.1 (2) | dim | 1548 |
| **Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig** | 93.2 (1,445) | 5.9 (91) | 0.8 (13) | 0.1 (1) | dim | 1550 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr achos** | 92.4 (1,404) | 6.1 (92) | 1.4 (21) | 0.1 (2) | 0.1 (1) | 1520 |

**Tabl 10**

| Achosion tystion dros yr erlyniad | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Adborth** | **'Rhagorol' (%)** | **Mwy na Boddhaol (%)** | **Boddhaol (%)** | **Llai na Boddhaol (%)** | **Gwael (%)** | **Ymatebion** |
| **Cydymffurfio â'r drefn droseddol** | 92.3 (108) | 7.7 (9) | dim | dim | dim | 117 |
| **Ymddygiad personol a phroffesiynoldeb** | 93.2 (109) | 6.8 (8) | dim | dim | dim | 117 |
| **Ansawdd y wybodaeth a ddarparwyd gan y cyfryngwr cofrestredig** | 92.2 (107) | 7.8 (9) | dim | dim | dim | 116 |
| **Pa mor ddefnyddiol oedd y cyfryngwr cofrestredig yn yr achos** | 93.9 (107) | 6.1 (7) | dim | dim | dim | 114 |

**Tabl 11**

[14] Tablau 10 a 11, *Data Gwasanaeth Cyfateb NCA 2022 – 23*

# Ffigurau Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol

Mae nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol ac anweithredol yn amrywio drwy gydol y flwyddyn. Mae'r ffigurau isod yn cyfateb i ffigurau gweithredol ac anweithredol ar 16eg diwrnod bob mis rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2023.

## Cyfryngwyr Cofrestredig Gweithredol

Mae cyfryngwr cofrestredig 'gweithredol' yn un sy'n mynd ati i dderbyn achosion newydd, fel y dirprwyir gan yr NCA.

## Cyfryngwyr Cofrestredig Anweithredol

Mae cyfryngwr cofrestredig 'anweithredol' yn un sydd wedi'i gofnodi ar y Gofrestr Gyfryngwyr fel un nad yw ar gael i'w gynnig ac sy'n derbyn achosion newydd. Mae'n bosibl y bydd cyfryngwr cofrestredig anweithredol yn dal i weithio ar achosion parhaus. Cydnabyddir y bydd gan gyfryngwyr cofrestredig ymrwymiadau eraill a allai olygu eu bod yn anweithredol am gyfnodau.

Mae'r rhesymau dros anweithgarwch yn amrywio'n fawr ac yn cynnwys ymrwymiadau cyflogaeth sylfaenol, absenoldeb mamolaeth, cyfnodau sabothol, astudiaethau academaidd, a chyfnodau gwyliau. Mae hyd yr anweithgarwch hwn yn amrywio yn unol â hynny. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfnodau hyn yn fyr; mae gwaith cyfryngwr cofrestredig yn cael ei reoli o'u cwmpas ac mae'r NCA yn cael gwybod am eu statws.


## Trosolwg o argaeledd cyfryngwyr cofrestredig

Roedd nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol wedi amrywio yn ystod 2023 gyda chyfartaledd o 144 o gyfryngwyr cofrestredig; sy'n cyfateb i 68% o gyfanswm cyfartalog y cyfryngwyr cofrestredig ar gofrestr WIS dros y cyfnod hwn (212). Mae hyn yn ostyngiad bach ar y flwyddyn flaenorol lle'r oedd cyfartaledd nifer y cyfryngwyr cofrestredig gweithredol yn 147.

Ychwanegwyd cyfanswm o 19 o gyfryngwyr cofrestredig at gofrestr WIS yn 2023, gyda 23 o gyfryngwyr cofrestredig yn gadael y Cynllun, gan arwain at ostyngiad cyffredinol o 4 cyfryngwr cofrestredig.[15] Mae hyn yn adlewyrchu nifer llai o raglenni hyfforddi sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, oherwydd yr amser sy'n cael ei dreulio'n datblygu cynnwys hyfforddi newydd sydd wedi'i deilwra ar gyfer darpariaeth ar-lein.

[15] Cyfradd athreuliad WIS = 10.4% o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 16%


Rydym yn bwriadu cynnal pedwar cwrs hyfforddi yn 2024 i sicrhau ein bod yn parhau i ateb y galw, gyda 7 cyfryngwr cofrestredig yn aros i gael eu cofrestru ar ôl cwblhau'r cwrs,




a 44 yn aros am hyfforddiant.

**Ffigur 13**

# Rhan tri: datblygiadau allweddol yn 2023




## Parhau i recriwtio cyfryngwyr cofrestredig

Parhaodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gynnal ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol, gyda saib byr yn ystod yr haf i ganiatáu i'r Tîm Hyfforddi Cyfryngwyr Cofrestredig (RITT) gwblhau adolygiad cynhwysfawr o gynnwys a darpariaeth hyfforddiant.

Roedd y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd wedi dyrannu cyllid i gefnogi datblygiad parhaus y RITT drwy recriwtio aelodau ychwanegol i'r tîm. Mae hyn yn gwella cydnerthedd, capasiti a sgiliau'r tîm i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel i ddarpar gyfryngwyr cofrestredig.

Arweiniodd ymgyrchoedd recriwtio llwyddiannus at benodi 19 o gyfryngwyr cofrestredig newydd yn 2023, gan gynyddu cyfanswm nifer y cyfryngwyr cofrestredig a ychwanegwyd at Gofrestr WIS dros gyfnod o 2 flynedd i dros 50. Mae hyn yn galluogi'r Cynllun i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn well ac ymateb yn fwy effeithiol i'r galw cynyddol am wasanaethau cyfryngu. Mae'r capasiti ychwanegol hefyd wedi caniatáu ar gyfer ystod fwy amrywiol o sgiliau ac arbenigedd yn y Gwasanaeth, sy'n cyfrannu ymhellach at allu'r Cynllun i addasu i anghenion esblygol defnyddwyr gwasanaeth ar draws y system gyfiawnder.

## Rhaglen hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig wedi'i hadnewyddu

Mae'r RITT wedi gwneud cyfres o newidiadau i'r rhaglen hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig i ddatblygu agweddau sgiliau-benodol y cwrs a sicrhau bod deunyddiau'n cael eu hoptimeiddio ar gyfer darpariaeth ar-lein barhaus.

Er mwyn gwella perfformiad hyfforddeion, roedd yr RITT wedi ailstrwythuro'r profiad dysgu ar-lein drwy ymestyn hyd y cwrs a'i rannu'n ddau gam. Mae'n ofynnol i hyfforddeion basio asesiad ar ddiwedd pob cam er mwyn symud ymlaen i'r lefel nesaf. Datblygwyd llawlyfr cwrs hefyd i hwyluso rhaglen fwy drafodol a rhyngweithiol.

Mae gwelliannau ychwanegol i'r rhaglen hyfforddi yn cynnwys ymgorffori mwy o gyfleoedd am adborth i hysbysu'r broses asesu ac addasu'r system marcio asesiadau. Yn hytrach na model pasio/methu deuaidd, mae'r dull newydd yn ymgorffori gwerthusiad mwy manwl o hyfforddeion. Cafodd y rhaglen hyfforddi newydd ei chynnal yn llwyddiannus ym mis Medi a mis Rhagfyr 2023, gan gael adborth rhagorol parhaus gyda sgôr cyfartalog o 4.6 allan o 5. Ar ben hynny, ers cyflwyno'r rhaglen hyfforddi, mae cyfradd llwyddo cyfartalog y mynychwyr wedi codi o 75% yn 2022 i 96% ddiwedd 2023.

Mae'r RITT, ochr yn ochr â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, wedi gweithio i gryfhau'r cysylltiadau rhwng recriwtio, hyfforddi, mentora, perfformiad cynnar a chymorth grŵp cymheiriaid ar ôl hyfforddi. Mae hyn yn sicrhau trosglwyddiad di-dor i ymarfer cyfryngwyr cofrestredig ar gyfer y rhai sy'n cymhwyso'n llwyddiannus, ac yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus a rhagoriaeth, gan gefnogi'r gwaith o gyflwyno Cynllun o ansawdd uchel.

## Archwiliadau DBS wedi'u huwchraddio

Diwygiwyd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 yn 2023, i wneud cyfryngwyr yn gymwys i gael gwiriadau DBS ar y lefel Safonol. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel uchel o ymddiriedaeth gyhoeddus mewn pobl sy'n cyflawni'r rôl gyfryngol a bydd yn helpu i ddiogelu unigolion sy'n agored i niwed ymhellach yn y system gyfiawnder.

## Diwygio llywodraethu a sicrhau ansawdd

Rydym wedi diwygio'r ffordd y caiff WIS ei lywodraethu drwy gyfuno'r Bwrdd Cofrestru Cyfryngwyr a'r Bwrdd Sicrhau Ansawdd i ffurfio Bwrdd Llywodraethu a Safonau (GSB) WIS.

Y nod oedd symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau, gwella cydweithio, gwella'r broses o lunio polisïau gweithredol a rheoli adnoddau'n well. Mae'r GSB yn caniatáu i arbenigedd aelodau gael ei ddefnyddio'n well a meddwl yn fwy cydgysylltiedig am gynlluniau strategol WIS.

Yn ogystal, rydym wedi recriwtio dau aelod annibynnol newydd o'r Bwrdd. Un ag arbenigedd mewn sicrhau ansawdd, rheoleiddio a chwynion, a'r llall â phrofiad ymarferol o weithredu fel cyfryngwr cofrestredig. Mae'r ychwanegiad hwn yn gwella arbenigedd y Bwrdd, ac yn ehangu ymhellach yr ystod o wybodaeth a phrofiad sydd ar gael iddo.

Ar ben hynny, mae polisïau WIS gan gynnwys mentora a chymorth a DPP yn destun adolygiad ar y cyd rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder, GSB a'r RIRT. Mae cychwyn yr adolygiadau yn adlewyrchu adborth gan y gymuned cyfryngwyr cofrestredig a bydd yn ystyried amrywiaeth o safbwyntiau.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ar y cyd â'r GSB a RIRT, hefyd wedi diwygio polisi Adborth a Chwynion WIS. Mae'r polisi hwn yn rhoi mwy o ffocws ar ddatrys yn anffurfiol lle bo'n bosibl, er mwyn annog myfyrio a chyfleoedd dysgu ar gyfer y gymuned o gyfryngwyr cofrestredig.

## Diweddariad i ganllawiau gweithdrefnol i gyfryngwyr cofrestredig

Rydym wedi cyhoeddi fersiwn newydd o'r Llawlyfr Cyfarwyddyd Gweithdrefnol i Gyfryngwyr Cofrestredig yn ystod haf 2023. Mae'r ddogfen hon yn ymgorffori'r datblygiadau gweithdrefnol diweddaraf yn WIS, gan sicrhau bod gan gyfryngwyr cofrestredig y wybodaeth, y canllawiau a'r wybodaeth weithdrefnol i'w helpu i lywio a chyflawni'r rôl gyfryngu yn y system cyfiawnder troseddol.

Roedd y gwelliannau'n cynnwys:

- Cymalau ychwanegol i'r Cod Ymarfer sy'n ymwneud â neilltuo system archebu WIT ar gyfer tystion ac achwynwyr â hawl i gael WIS, ac argaeledd cyfryngwyr cofrestredig lle darperir digon o rybudd.
- Gwybodaeth am y gwiriadau DBS sydd newydd eu huwchraddio sy'n ofynnol ar gyfer rôl cyfryngwr cofrestredig, yn unol â Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975 (fel y'i diwygiwyd yn 2023).
- Canllawiau gweithdrefnol cryfach ar rôl a chyfrifoldebau cyfryngwr cofrestredig wrth gynnal achos yn ystod y cam ymchwilio.
- Rhagor o wybodaeth am y berthynas rhwng cyfryngwr cofrestredig a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r cyfrifoldebau sydd gan gyfryngwr cofrestredig wrth gynorthwyo tyst yn y llys mewn perthynas ag asesiadau llys, mynychu ac ysgrifennu adroddiadau.
- Protocolau cryfach ar ddiogelu.

Roedd y diweddariad cynhwysfawr hwn yn elwa o gyfraniadau helaeth o bob rhan o'r gymuned gyfryngu, gan gynnwys yr NCA, RIRT a'r RITT.

## Cynhadledd flynyddol WIS

Cynhaliwyd Cynhadledd Flynyddol WIS 2023 fel digwyddiad rhithiol ac roedd dros 120 o unigolion o bob rhan o'r Gwasanaeth, gan gynnwys cyfryngwyr cofrestredig, rhanddeiliaid ac academyddion, yn bresennol. Mae'r gynhadledd flynyddol yn parhau i fod yn ddigwyddiad allweddol yng nghalendr WIS ac mae'n rhoi cyfle i'r rhai sy'n bresennol ddod at ei gilydd, rhwydweithio a dysgu mwy am feysydd penodol ymarfer cyfryngwyr cofrestredig a mesurau arbennig yn y system gyfiawnder.

Roedd y digwyddiad yn cynnwys sesiynau gan amrywiaeth o siaradwyr, gan gynnwys cyfryngwyr cofrestredig, gweithwyr proffesiynol yn y system gyfiawnder ac academyddion. Roedd hyn yn adlewyrchu amgylchedd datblygol, ac weithiau heriol, ymarfer cyfryngwyr

cofrestredig yn y system gyfiawnder. Roedd y sesiynau’n cynnwys gwybodaeth arbenigol am weithio gyda thystion ifanc iawn a thystion ag awtistiaeth a heriau iechyd meddwl, yn ogystal â chlywed safbwyntiau bargyfreithwyr ar weithio gyda chyfryngwyr cofrestredig, y datblygiadau diweddaraf i ganllawiau ABE, a’r newid o ran croesholi yn y system cyfiawnder troseddol.

Cafodd Cynhadledd Flynyddol WIS adborth hynod o gadarnhaol ac mae’n parhau i fod yn ddigwyddiad arwyddocaol a phoblogaidd yng nghalendr WIS.

## Cylchlythyr WIS

Drwy gydol 2023, mae’r tîm polisi Defnyddwyr sy’n Agored i Niwed wedi darparu cylchlythyr chwarterol WIS i’r gymuned cyfryngwyr cofrestredig. Bwriad y cylchlythyrau yw rhoi’r newyddion a’r diweddariadau perthnasol i’r gymuned cyfryngwyr cofrestredig yn rheolaidd gan WIS

Mae cylchlythyr WIS yn rhannu gwybodaeth am ddiweddariadau i ganllawiau gweithdrefnol, y gynhadledd flynyddol, canllawiau cyfreithiol, newidiadau i’r tîm Polisi Defnyddwyr sy’n Agored i Niwed, cyfleoedd hyfforddi a recriwtio, a diweddariadau am yr adolygiad o bolisi cyfryngwyr. Roedd y cylchlythyr hefyd yn cynnwys profiadau ysgrifenedig gan gyfryngwyr cofrestredig eu hunain, ac adborth cadarnhaol dienw, i ddangos y gwasanaeth o safon a ddarperir gan WIS.

# Rhan pedwar: cyllid y Cynllun Cyfryngwyr i Dystion

## Cyllideb weinyddol

Roedd cyllideb WIS ar gyfer 2023/24 yn ~£700,000 gydag ychydig o dan £600,000 o'r gyllideb hon wedi'i neilltuo ar gyfer Tîm Cyfryngwyr Tystion NCA i ariannu gwasanaeth cyfateb WIS ac Ysgrifenyddiaeth GSB.

Mae'r arian sy'n weddill yn cael ei ddyrannu ar draws WIS, ac mae hyn yn cynnwys ariannu gwaith y GSB, RITT a RIRT yn ogystal â dyletswyddau corfforaethol a gyflawnir gan gyfryngwyr cofrestredig.

## Adolygiad blynyddol o gyfraddau tâl


Rhaid i gyfryngwyr cofrestredig anfonebu yn unol â'r gyfradd y cytunwyd arni'n genedlaethol. Mae'r ffioedd yn seiliedig ar gyfradd fesul awr, sy'n cynnwys apwyntiadau wyneb yn wyneb ac ysgrifennu adroddiadau, gan ad-dalu costau teithio a chynhaliaeth o fewn terfynau polisi.

Ymrwymir i drefniant cytundebol pan fydd y cyfryngwr cofrestredig yn derbyn Cais am Wasanaeth. Mae'r trefniant hwn rhwng y cyfryngwr cofrestredig, sy'n unigolyn hunangyflogedig, a'r gwasanaeth y mae'r cais yn deillio ohono – yr heddlu neu Wasanaeth Erlyn y Goron fel arfer.

Cytunir ar gyfraddau tâl gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r NPCC. Cynhelir adolygiad o gyfraddau tâl yn flynyddol ac mae'n dilyn gweithdrefn y cytunwyd arni, gyda chyfryngwyr cofrestredig yn cael eu gwahodd i gyflwyno cynnig ynghylch tâl. Dyfarnwyd cynnydd o 3.5% i gyfradd tâl craidd fesul awr 2023/24 i gyfryngwyr cofrestredig (roedd y cynnydd hwn hefyd yn berthnasol i'r cyfraddau amser teithio ac anghymdeithasol).

| **Dyfarniadau cyflog cyfryngwyr cofrestredig (hanes diweddar)** | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Ariannol** | **Dyfarniad (% Cynnydd)** | **Cyfradd Graidd Fesul Awr ar ôl y Dyfarniad (£)** |
| **2019-20** | 1 | **39.33** |
| **2020-21** | 1.5 | **39.92** |
| **2021-22** | dim | **39.92** |
| **2022-23** | 3 | **41.20** |
| **2023-24** | 3.5 | **42.64** |

# Rhan pump: edrych tua’r dyfodol




## Cynyddu gallu WIS

Mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn dal yn ymrwymedig i fuddsoddi mewn recriwtio a hyfforddi cyfryngwyr cofrestredig newydd i gynyddu gallu WIS. Yn 2024, byddwn yn parhau â strategaeth recriwtio genedlaethol, gan nodi ymgeiswyr sydd â sgiliau ac arbenigedd mewn ystod eang o anghenion cyfathrebu. Bydd penderfyniadau recriwtio hefyd yn cael eu llywio gan ddadansoddiad data WIS sy’n darparu’r WIT gyda thueddiadau rhanbarthol sy’n dod i’r amlwg. Dylai dull gweithredu wedi’i dargedu helpu i wella argaeledd cyfryngwyr cofrestredig mewn ardaloedd heddlu penodol a sicrhau bod anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i gael eu diwallu.

## Adolygu’r polisi – y camau nesaf

Yn dilyn cymeradwyaeth y Gweinidog yn 2023, rydym yn symud ymlaen gyda’r argymhellion sy’n deillio o’r adolygiad o ddarpariaethau cyfryngwyr. Mae tair elfen i’n hargymhellion:

- Yn gyntaf, bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn llunio cynllun cyfathrebu i hyrwyddo dealltwriaeth o rôl y cyfryngwr. Bydd hyn yn cynnwys cyhoeddi diffiniad diwygiedig o gyfryngwr sy’n cyfleu rôl a chyfrifoldebau cyfryngwyr y system gyfiawnder yn well. Byddwn hefyd yn cysylltu â rhanddeiliaid perthnasol ac ymarferwyr yn y system gyfiawnder i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau cyfryngu er mwyn hyrwyddo gwell dealltwriaeth o’u defnydd a’u gwerth.

- Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gyda GLITEF i wella’r gwaith o gasglu a dadansoddi data ynghylch defnyddio cyfryngwyr. Drwy ddadansoddi’r data diweddaraf, byddwn mewn gwell sefyllfa i ddeall y galw a llunio darpariaeth cyfryngwyr fwy effeithiol ac ymatebol sy’n diwallu anghenion y system gyfiawnder sy’n esblygu.

- Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn parhau i feithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid i sicrhau ansawdd cyson yr holl wasanaethau cyfryngu ar draws awdurdodaethau troseddol, teulu a sifil.

© Hawlfraint y Goron 2024

Trwyddedwyd y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon ewch i, nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.